Pwy sy'n gwneud gwaith Estyn?

Staff Estyn	Arolygwyr annibynnol dan gontract	Aseswyr cymheiriaid
Prif Arolygydd ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Penaethiaid Cyfarwyddiaeth sydd â chyfrifoldebau rheoli uwch dros Ddarparwyr Addysg; Polisi, Cynllunio a Datblygu Sefydliadol; a Phartneriaethau Addysg, Hyfforddiant a Chynhwysiad. Arolygwyr Rheoli, sef rheolwyr llinell AEM/AY, sy'n benodol gyfrifol am agweddau ar addysg a hyfforddiant Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru/Arolygwyr Ychwanegol ar secondiad. Staff y Gyfarwyddiaeth Polisi, Cynllunio a Datblygu Sefydliadol sy'n gyfrifol am ddarparu neu sicrhau swyddogaethau gweinyddol corfforaethol, gan gynnwys contractio, cyhoeddiadau, cyfathrebu, adnoddau dynol, cyllid a gwasanaethau	Arolygwyr Cofrestredig (ACof): maent yn cynnal arolygiadau ysgol ac maent yn gyfrifol am y tîm arolygu a'r adroddiad ar y cyd â'r contractwr. Arolygwyr Tîm: maent yn arolygu pynciau ac agweddau penodol ar waith yr ysgol ac yn cyfrannu at y barnau yn yr adroddiad. Arolygwyr Lleyg: ni ddylent fod â phrofiad o reoli neu ddarparu addysg mewn unrhyw ysgol (heblaw fel llywodraethwr neu'n gweithredu mewn unrhyw swydd wirfoddol arall). Rhaid i bob tîm arolygu mewn ysgol a gynhelir gynnwys arolygydd lleyg. Arolygwyr Meithrin Cofrestredig (AMCof) (sydd bellach yn cael eu galw'n Arolygwyr y Cyfnod Sylfaen (ACS)), sy'n arolygu ac yn adrodd ar ddarpariaethau meithrin yn y sector meithrin na chynhelir. Arolygwyr Ychwanegol: sydd ag arbenigedd	Mae aseswyr cymheiriaid yn aelodau staff a gyflogir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant sydd, yn dilyn hyfforddiant gan Estyn, yn ymuno â'r tîm arolygu i arolygu darparwyr eraill. Maent yn gweithio ochr yn ochr ag Arolygwyr Ei Mawrhydi (AEMau) neu Arolygwyr Ychwanegol (AYau) ac o dan eu harweiniad. Maent yn cymryd rhan mewn arolygiadau Estyn fel aelodau llawn o'r tîm arolygu.

gwybodaeth.	penodol mewn addysg neu hyfforddiant ac sy'n gweithio dan gontract neu'n cael eu secondio i wneud gwaith penodol.